# Gweithgaredd 3
## Chwarae teg?

**Gweler ADNODDAU CD** ***ar gyfer*** cardiau annog

**Nod:** Datblygu dealltwriaeth o gysyniadau tegwch a chyfiawnder. **Amser:** 30 munud. **Oedran:** 5+. **Yr hyn sydd ei angen arnoch:** *Cardiau annog chwarae teg* (ar y CD, argraffwch un set ohonynt a'u lamineiddio).

### Beth i'w wneud

Cyflwyno'r pwnc ar gyfer y wers hon: tegwch. Fel dosbarth, edrychwch ar y *Cardiau annog chwarae teg*, a siaradwch am blant yn ymddwyn yn deg ac am blant sy'n cael eu trin yn annheg.

- Pa rai sy'n dangos sefyllfa deg?
- A pha rai sy'n dangos sefyllfa sy'n annheg? Sut ydych chi'n gwybod hyn?

Archwiliwch ystyr y geiriau 'teg' ac 'annheg'.

Gofynnwch i'r plant baratoi ar gyfer gweithgaredd amser cylch. Gosodwch reolau sylfaenol ar gyfer y drafodaeth – er enghraifft, gofynnwch i'r plant beidio ag enwi plant eraill wrth rannu eu straeon.

Ewch o amgylch y cylch gan ofyn i bob un ohonynt feddwl am adeg iddynt feddwl neu ddweud 'Dyw hynny ddim yn deg!' wrth iddynt weld neu brofi rhywbeth. Beth ddigwyddodd? Sut ydych chi'n teimlo pan rydych yn credu eich bod wedi cael eich trin yn annheg? Sut wnaethoch ymateb? Sut fyddai wedi bod yn bosibl ei osgoi?

Pam mae'n bwysig ceisio trin pawb yn deg? Gofynnwch i'r dosbarth gynnig awgrymiadau. Neilltuwch amser i drafod enghreifftiau o sut y gallent wneud hyn yn eu bywydau bob dydd. Gallech ddilyn hwn â Gweithgaredd 4, *Hawliau a chyfrifoldebau yn yr ystafell ddosbarth.*







**Ffynhonnell:** Addaswyd o *LIFT OFF, The Right Start*.